

Pa mor effeithlon mae'r llu ynghylch cadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd?

Trosolwg

Dyfernir bod angen i Heddlu Gogledd Cymru wella pa mor effeithlon ydyw wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Nid yw ein dyfarniad cyffredinol yn gyson â'r llynedd, pan aseswyd bod yr heddlu'n dda ar gyfer effeithlonrwydd ar y cyfan. Mae'r heddlu wedi cynnal dealltwriaeth dda o alw presennol; dyfernir bod angen iddo wella ei ddefnydd o adnoddau i reoli galw; a dyfernir bod angen iddo wella ei waith o gynllunio ar gyfer galw yn y dyfodol.

Mae angen i Heddlu Gogledd Cymru wella pa mor effeithlon ydyw ar y cyfan wrth gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd, er bod rhai agweddau ar y dyletswyddau hyn y mae'n eu rheoli'n dda. Mae'r heddlu'n dda yn deall y galw am ei wasanaethau ac mae ganddo brosesau a systemau wedi'u sefydlu'n dda ar gyfer monitro a deall galw presennol. Mae'r heddlu'n defnyddio'r ddealltwriaeth hon i leoli pobl ac adnoddau lle y mae eu hangen fwyaf. Mae hyn yn cynnwys deall galw na fyddai o bosibl yn cael ei adrodd fel arall.

Mae arweinwyr yr heddlu yn hyrwyddo mwy ar feddwl yn arloesol i leihau galw, er bod angen gweithredu prosiectau mawr - megis y rhai hynny sy'n cynnwys technoleg symudol - yn gyflymach. Mae angen i Heddlu Gogledd Cymru wella'r graddau y mae'n defnyddio ei adnoddau'n dda. Nid yw'r heddlu wedi cynnal archwiliad sgiliau o'i weithlu cyfan a fyddai'n gwella ei ddealltwriaeth o gapasiti a gallu. Mae hyn yn golygu na allai ddefnyddio'r ddealltwriaeth hon er mwyn helpu i lywio ei brosesau recriwtio, dewis na hyrwyddo er mwyn nodi'r bobl orau ar gyfer y swydd, nac i ddatblygu pobl yn eu rolau. Mae hyn yn berthnasol i arweinwyr yr heddlu hefyd. Ceir prosesau i flaenoriaethu gweithgarwch plismona mewn ymateb i ddisgwyliadau cyhoeddus newidiol, ond nid yw arweinwyr bob amser yn defnyddio rhesymeg glir i fodloni'r galw hwn.

Mae angen i Heddlu Gogledd Cymru wella'r ffordd y mae'n cynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae arweinwyr yn dechrau dadansoddi rhai rolau er mwyn cael gwell syniad o sut y mae galw yn newid, gan gynnwys galw tebygol am eu gwasanaethau yn y dyfodol, ac mae'r heddlu'n datblygu cynllun hirdymor a fydd yn dod â'r holl waith hwn ynghyd. Bydd y cynllun hwn yn cynnwys gwneud defnydd gwell o dechnoleg, lleihau adnoddau partneriaid ac ystyried barn cymunedau lleol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes gan yr heddlu weledigaeth unigol ar gyfer y dyfodol er mwyn dod â'r holl

weithgarwch hwn ynghyd, gan ei alluogi i fodloni galw yn y dyfodol. Mae cynlluniau'r heddlu ar gyfer y dyfodol yn realistig ond nid ydynt yn drawsnewidiol. Mae tystiolaeth o arloesi deinamig yn y sefydliad yn gyfyngedig o'i gymharu â heddluoedd eraill. Fodd bynnag, mae'r heddlu'n dda yn parhau i wneud arbedion, sy'n golygu ei fod yn gallu buddsoddi'n dda mewn seilwaith i wneud arbedion ychwanegol yn y dyfodol.